

Eitem: 05

Teitl: Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o'r pethau a gymerwyd ymlaen gan y Prif Weithredwr ers cyfarfod cyhoeddus diwethaf y Bwrdd ar 26 Gorffennaf 2023. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgareddau ers cyfarfod diwethaf y bwrdd wedi'i chynnwys ym mhapurau eraill y Bwrdd.

Meithrin perthasoedd a gweithio gyda phartneriaid

Rwyf wedi parhau i gyfarfod â llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a'n gweithgareddau, ein ffyrdd o weithio, materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfarfod â thîm partneriaeth Llais i siarad am weithgareddau a chynnydd Llais
- cyfarfod â Judith Padget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr y GIG i siarad am y pwysau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r effeithiau ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau eiriolaeth a chynrychioliadol cenedlaethol a grwpiau sy'n gweithio i gefnogi a chynrychioli buddiannau pobl mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys Cymdeithas Alzheimers, Marie Curie, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru, swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Age Cymru, CGGC, Stamma a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr.
- cyfarfod ag amrywiaeth o lunwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys yr Athro Andrew Dickenson (Prif Swyddog Deintyddol Cymru), Heather Payne (Uwch Swyddog Meddygol Iechyd Mamau a Phlant), David Clayton (Pennaeth Asesu a Chymhwysedd), Karen Jewell (Swyddog Nyrsio ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar),

Mike Emery (Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol), Sally Lewis (Gwerth mewn Iechyd Cymru), Gweithgor Gofal Cymdeithasol Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliol Cymru, Syr Frank Atherton (Prif Swyddog Meddygol Cymru), Simon Jones (Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru)

- cyfarfod a bwrw ymlaen â threfniadau i ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd y DU gyda chyrrff tebyg gan gynnwys Healthwatch Lloegr, y Cyngor Cleifion a Chleientiaid, a Chomisiynydd Diogelwch Cleifion Lloegr
- cyfarfod â rheoleiddwyr/cyrrff cynrychioliadol proffesiynol a system sy'n cwmpasu iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Rwyf hefyd wedi cyfarfod ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd sy'n dangos sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd

- gweithio gyda Chomisiwn Bevan i annog a chefnogi pobl i gymryd rhan a siarad am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru trwy gyfres o ddiwyddiadau a gynhelir gan Gomisiwn Bevan ledled Cymru ac ar-lein
- cyfarfod â Gareth Davis AS i siarad am Llais a chlywed am y pethau sy'n bwysig i bobl sy'n byw yn Nyffryn Clwyd.

Datblygu ein hunain i gyflawni

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn gweithio gyda'n pobl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i barhau i adeiladu ein sefydliad newydd a'n ffyrdd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys:

- cynnal ein cynhadledd staff gyntaf Cymru gyfan. Teithiodd ein timau staff o bob rhan o Gymru i Ganolbarth Cymru i ddod at ei gilydd yn bersonol am y tro cyntaf.

Roedd y digwyddiad yn ffordd wych i'n recriwtiaid newydd a staff mwy profiadol i siarad am ein profiadau cynnar o weithio yn Llais,

i ddod i adnabod ein gilydd, i siarad a chytuno ar yr hyn yr ydym yn ei werthfawrogi fel pobl ac fel cynrychiolwyr Llais, a'r ymddygiadau yr ydym am eu gweld gennym ni ein hunain ac oddi wrth ein gilydd.

Byddwn yn cynnal digwyddiad pellach ar gyfer staff nad oedd yn gallu ymuno â ni yn bersonol yn ogystal â'n gwirfoddolwyr.

- ymweld â'n staff a'n gwirfoddolwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i glywed sut mae pethau wedi bod yn mynd a sut y gallwn helpu ein gilydd i gyflawni ein gwaith.
- ymweld â'n staff a'n gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ynghyd â'n llysgennad rhanbarthol, i siarad am rolau'r Bwrdd a'r llysgennad rhanbarthol, ac i glywed am y cynlluniau a'r gweithgareddau yn y rhanbarth.
- cyfarfod a siarad ag aelodau Tîm Arwain i barhau i ddatblygu ein hunain a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel uwch dîm arweinyddiaeth newydd.

Roedd hyn yn cynnwys siarad am a chytuno ar sut rydym yn gweithio gyda'n staff a'n gwirfoddolwyr ac yn eu cefnogi, sut i roi cynnig ar a rhannu ffyrdd newydd o weithio a sut rydym yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a'n cyfrifoldebau sector cyhoeddus eraill.

- ysgrifennu i gadarnhau nifer o'n uwch staff fel deiliaid cyllidebau a 'swyddogion atebol' dynodedig i'm cefnogi yn fy rôl fel swyddog cyfrifyddu
- darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu, gan gynnwys:
 - Atebolrwydd cyhoeddus a rôl y Swyddog Cyfrifyddu
 - Ymwybyddiaeth o dwyll
 - Ymwybyddiaeth wrth hiliaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol
 - Rheoli risg

Rwyf hefyd wedi cyfarfod â gwahanol bobl i siarad am y cymorth 'datblygiad sefydliadol' sydd ei angen arnom i'n helpu i ddatblygu ein hunain a'n sefydliad.

- gweithio gyda'n Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd a Chadeirydd ein Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i gytuno pryd a sut i gyfarfod, beth i edrych arno a siarad amdano a sut i gryfhau sgiliau'r pwyllgor drwy recriwtio aelodau newydd
- cael cymorth a chefnogaeth i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf wedi siarad â phobl fel David Richards (Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg yn Llywodraeth Cymru) ac eraill sydd wedi bod yn ymwneud â chreu sefydliadau newydd fel Chris Darling (Ysgrifennydd Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru)
- cydweithio â'n Cyfarwyddwyr Strategol i fwrw ymlaen â'n rhaglen seilwaith digidol a llywio datblygiad ein strategaeth a'n cynlluniau.

Mae ein holl staff bellach wedi trosglwyddo i'n hoffer a'n meddalwedd digidol newydd, mae datblygiad ein system 'Rheoli Perthynas Cwsmer' newydd ar y trywydd iawn i ddechrau gweithio ym mis Chwefror 2024, ac rydym wedi cytuno i brynu a defnyddio system a gefnogir gan 'Ddeallusrwydd Artiffisial' i'n helpu i rannu gwybodaeth â phobl mewn llawer o wahanol ffyrdd ac ieithoedd.

- Penodi a chyfarfod ein tîm gwasanaeth Archwilio Mewnol newydd. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru oedd y cynigwyr llwyddiannus yn dilyn ymarfer tendro ffurfiol. Bydd cynllun blynyddol yr archwiliad mewnol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd.
- Cyfarfod â staff yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i siarad am sut yr ydym yn mynd o gwmpas ein gwaith ac i gael eu cyngor a chefnogaeth i'n helpu i wneud yn siŵr ein bod yn meddwl am degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.

- Cael cyngor a siarad â'n darparwyr gwasanaeth am lofnodi cytundebau i gadarnhau'r ffordd rydym yn derbyn ein gwasanaethau a'n trefniadau talu. Rwyf wedi llofnodi cytundeb ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer ein gwasanaethau yn 2023-2024. Byddaf yn cyfarfod â Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ar 19 Hydref 2023.
- Penodi cynorthwydd personol. Bydd y penodiad hwn yn chwarae rhan allweddol wrth fy helpu i a'n cyfarwyddwyr strategol i reoli ein gweithgareddau a'n perthnasoedd o ddydd i ddydd.

Sylwadau ar faterion gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rwyf wedi cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau i rannu'r hyn yr ydym yn ei glywed am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal, i siarad am yr hyn sydd angen digwydd i wneud pethau'n well ac i siarad am gynlluniau a chynigion i newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu'n genedlaethol.

Mae hyn yn cynnwys:

- cyfarfod â Dr Sian Lewis, Rheolwr Gyfarwyddwr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i siarad am gynigion i newid gwasanaethau ffrwythlondeb, ac i glywed mwy am gynnydd gyda datblygiadau eraill gan gynnwys Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd a ddarperir yn Lloegr ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru
- cyfarfod â Jason Killens, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i siarad am drefniadau gwaith rhwng staff ambiwlans ac adrannau achosion brys ysbytai
- cyfarfod â Stephen Harray, Comisiynydd Gwasanaethau Ambiwllans Brys i siarad am y dull gweithredu a'r camau gweithredu pellach sydd eu hangen i ymgysylltu â phobl a chymunedau am y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys

- ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Ail-gydbwysu gofal a chymorth'. Mae hyn yn ymwneud â gwella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well

Rydym wedi anfon tystiolaeth ysgrifenedig ac rwyf wedi darparu tystiolaeth lafar i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd fel rhan o'i ymchwiliad byr ar [Gyfiawnder Data: y defnydd o ddata personol yn GIG Cymru](#).

Rwyf wedi ysgrifennu at:

- Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarganfod mwy am y cynnydd a wnaed yn dilyn eu hadolygiad ar y cyd o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarganfod mwy am y camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru yn dilyn y dyfarniad yn y treial Lucy Letby a'r materion a godwyd ganddo ynghylch gwrando a gweithredu'n gyflym pan fydd pobl yn codi pryderon am ddiogelwch cleifion
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddarganfod mwy am effaith y cynllun i gau Athrofa Therapiau Lleiaf Ymyrrol Cymru (WIMAT) ar bobl sy'n byw yng Nghymru.

Adrodd ar 2022-2023

Rwyf wedi siarad â Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac eraill i gytuno a bwrw ymlaen â threfniadau i baratoi, llofnodi a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf Llais ar gyfer 2022-2023.

Rwyf wedi goruchwyllo'r gwaith o baratoi adroddiadau blynyddol terfynol Bwrdd y Cyngorau Iechyd Cymuned a'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru blaenorol, gan gynnwys eu hadroddiadau terfynol ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Digwyddiadau a gweithgareddau i ddod

Mae rhai o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd i ddod y byddaf yn cymryd rhan ynddynt yn cynnwys:

- Sesiwn briffio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru
- Cyfarfodydd Uwchgynhadledd Gofal Iechyd Cymru Gyfan
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Grŵp Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru
- Cynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru
- Cynhadledd Gofalwyr Cymru
- Digwyddiad datblygu bwrdd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru